Taflen Ffeithiau 4: Rheoli eich Taliadau Uniongyrchol

Taliadau

Cyn y gall Cyngor Sir y Fflint ddarparu eich taliadau uniongyrchol byddwn yn gofyn i chi arwyddo cytundeb. Mae'n disgrifio cyfrifoldebau'r cyngor a'ch cyfrifoldebau chi ar gyfer dim ond defnyddio'r arian i gyflawni eich anghenion a'r canlyniadau a gytunwyd arnyn nhw.

Anghenion yw pethau yr ydych angen help gyda nhw, fel mynd o gwmpas, neu gadw eich hun yn lân ac yn daclus.

Mae canlyniadau yn bethau mwy y dymunwch iddyn nhw ddigwydd fel gallu

parhau i fyw yng nghartref eich hun, bod â ffrindiau neu gael swydd.

Cyfrif Taliadau Uniongyrchol

Bydd y cyngor yn eich darparu gyda chyfrif y byddwch yn ei ddefnyddio ar gyfer y gofal a'r gefnogaeth sydd ei angen arnoch.

Bydd y cyngor yn talu'r arian i'ch cyfri bob pedair wythnos.

Yna byddwch yn defnyddio'r arian i un ai dalu am eich cynorthwywyr personol, yr asiant ofal yr ydych yn ei ddefnyddio, neu ariannu nwyddau a gwasanaethau eraill a gytunwyd arnyn nhw.

Dydyn ni ddim eisiau i chi dreulio eich amser yn poeni am arian, felly rydym wedi datblygu system sydd yn syml. A chofiwch, rydym yn rhoi cymaint o gymorth ag sy'n bosib i chi.

Gan fod y cyngor yn gyfrifol am y ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei wario, byddwn yn monitro eich cyfrif i wneud yn siŵr fod pethau yn gweithio'n dda i chi.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

CSyFf sy'n darparu'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol ac mi fyddan ni yno i chi bob cam o'r ffordd i wneud yn siŵr fod eich taliadau uniongyrchol yn gweithio'n dda i chi, ac yn cyfrannu at ffordd dda o fyw i chi.

Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol

Rhif ffôn: 01352 701100 **E-bost:** dp.support@flintshire.gov.uk